# thewallich

atal digartrefedd • preventing homelessness

# Eich arweiniad i godi arian




thewallich.com   @TheWallich

Registered with FUNDRAISING REGULATOR

Institute of Fundraising ORGANISATIONAL MEMBER

Elusen Gofrestredig Rhif: 1004103 / Yn Gofrestredig yng Nghymru a Lloegr / Cwmni Cyfyngedig Trwy Warant Rhif: 2642780


# The Wallich ydyn ni

**Rydyn ni'n credu mewn Cymru lle mae pobl yn sefyll gyda'i gilydd i ddarparu gobaith, cymorth ac atebion i roi diwedd ar ddigartrefedd.**



Rydyn ni'n gweithio'n ddiflino i:

- **gael pobl oddi ar y strydoedd**
- **i gadw pobl oddi ar y strydoedd**
- **i greu cyfleoedd i bobl**







Ac yn syml, allen ni ddim gwneud hyn heboch chi. Boed hynny drwy ddigwyddiadau, rhoddion neu rodd mewn ewyllys, rydym yn dibynnu ar ein cymuned i'n helpu i godi'r arian sydd ei angen i gyflenwi'r gwasanaethau holl bwysig.

Drwy ymuno â **#TîmWallich**, rydych chi'n ymuno â'r gymuned o bobl sy'n sefyll gyda'i gilydd i helpu i atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd am byth.

# Ysbrydoliaeth

**Darllenwch y storïau gwefreiddiol hyn gan bobl sydd wedi codi arian inni yn y gorffennol – pobl ryfeddol fel chi.**

## Gwnewch rywbeth gwreiddiol

**Rhowch rwydd hynt i'ch dychymyg. Gorau po hurtaf yw'r syniad.**

### Capten Beany




Trefnodd ddigwyddiad diwrnod 'Valent-Heinz Day' (gyda rhosod oren), gan gasglu arian mewn bwcedi yn ei archfarchnad leol cyn troi'n 'ffa rhedeg' ar gyfer ras 10K Casnewydd.

**Cododd: £645**

### Dewi Palmer y Coblyn Nadolig



Fe wnaeth ef glasur o sioe Nadolig gan fynd i'r gwaith wedi gwisgo fel coblyn bob dydd ym mis Rhagfyr wedi ei noddi gan ei gydweithwyr.

**Cododd: £315**

### Y Ras Frecwast yn Hanner Marathon Caerdydd



Fe wnaeth saith rhedwr wisgo i fyny fel eitemau brecwast anferthol i gynyddu ymwybyddiaeth o wasanaeth brecwast cynnar holl bwysig ein Tîm Ymyrraeth ar gyfer Pobl sy'n Cysgu Allan.

**Codwyd: £852.50**

### Ysbrydoliaeth sydyn

Edrychwch ar y **poster 12 ffordd o ragori ar eich cyfanswm** yn y pecyn hwn.

Ymunwch â'n **grŵp Facebook**. Ewch i'n tudalen @TheWallichWales neu i Facebook chwiliwch am: *#Rhedwyr TîmWallich a'r gymuned o godwyr arian*

Mae tîm codi arian The Wallich yma i helpu ac felly os hoffech gael unrhyw gyngor neu gefnogaeth, cysylltwch â'n tîm codi arian ar **02920 668464** neu drwy'r e-bost ar **dosomething@thewallich.net**

# Ysbrydoliaeth

## Syniadau di-ffael

Mae Centurion VAT wedi cynnal noson gwis flynyddol er budd The Wallich er 2015. Drwy ddewis y lleoliad iawn a chasglu ynghyd ddigon o'u cleientiaid a'u cydweithwyr mae'r digwyddiad yn llwyddiant.

| | |
|---|---|
| **Ble** | Undeb Myfyrwyr Prifysgol Met Caerdydd |
| **Pryd** | Bob mis Mai/Mehefin |
| **Codwyd** | £5,234.94 hyd yma |




**Gair i gall**

### Defnyddiwch eich cysylltiadau

Aeth Centurion VAT at eu cysylltiadau mewn busnesau lleol i ofyn yn garedig am wobrau i'r raffl. Maen nhw hefyd yn defnyddio'r cwis blynyddol fel ffordd o dreulio amser yn gymdeithasol â'u cleientiaid hen a newydd.

## Defnyddiwch feddwl agored


**Trowch rywbeth rydych chi'n dda am ei wneud yn her noddedig.**

### Stori rithwir Amy

Fe wnaeth Amy, ein rhedwr campus ym Marathon Llundain, godi arian drwy drefnu amserlen o ddigwyddiadau – stondin gacennau, raffl, nosweithiau cwis, loteri.

Fe wnaeth Amy hefyd greu #MarathonMawrth – ras rithwir. Gofynnodd i bobl eraill ymuno â hi i redeg, loncian neu gerdded 26.2 o filltiroedd drwy gydol mis Mawrth. Cafodd pawb wnaeth gwblhau'r her fedal am eu gwaith caled.

**Codwyd: £2,000**




**Gair i gall**

### Adnabod eich cefnogwyr

Gwyddai Amy y byddai ei chlwb rhedeg yn awyddus iawn i wneud y marathon rhithwir a gofynnodd am gyfraniad o £10 gan bawb oedd am gymryd rhan. Fe wnaeth hi hefyd gael cefnogaeth ei chyflogwr gan drefnu stondin gacennau a loteri yn ei swyddfa.

# Cyngor

## Mae amseriad yn bopeth

Dewiswch ddyddiad pan fydd eich cysylltiadau ar gael. Mae digwyddiadau penwythnos yn fwy poblogaidd a gallwch godi mwy o arian. Neu trefnwch eich digwyddiad ar yr un diwrnod â rhywbeth sydd eisoes yn boblogaidd, fel Diwrnod Cenedlaethol y Cacennau Bach. Dewiswch y dyddiadau cyn gynted â phosibl.

## Gofynnwch am help

Gofynnwch i'ch ffrindiau a'ch teulu eich helpu. A ydych chi'n adnabod canwr gwych? Pobydd penigamp? Neu rywun a allai gynnig lleoliad neu wobrau raffl ichi am ddim? Gofynnwch iddynt ad-dalu ffafr i chi a'u cael i'ch helpu.

## Lleoliad, lleoliad, lleoliad

Am ddewis rhad, archebwch eich neuadd leol i gynnal sesiwn celf a chrefft, neu trefnwch gwis, sioe dalentau neu noson gig yn eich hoff dafarn neu leoliad cerddoriaeth.

## Ennyn cyhoeddusrwydd

Cysylltwch â'r papur neu'r orsaf radio leol a rhoi cyhoeddusrwydd i'ch digwyddiad neu rhowch wahoddiad iddynt ddod draw ar y diwrnod. Mae gan The Wallich dîm o arbenigwyr cyfryngau a all eich helpu.

## Cynllun B

Yn bwriadu cynnal digwyddiad awyr agored? Beth os yw'n bwrw glaw? Oes gennych chi ddewis 'dan do'? Cofiwch wneud archwiliad iechyd a diogelwch ar eich holl ddigwyddiadau. Gall tîm codi arian The Wallich eich cynghori drwy **dosomething@thewallich.net**

# Gair i gall

## Cymdeithaswch

**Postiwch hun-lun â'r cerdyn addewid sy'n dod yn y pecyn hwn.** Tagiwch ni yn eich postiau ar Facebook, Twitter, Instagram neu LinkedIn a defnyddiwch ein hashnodau:

**#TîmWallich**
**#GwneudDigartrefeddynHanes**

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn lle gwych i greu cyffro am eich digwyddiadau, eich cerrig milltir wrth hyfforddi a'ch tudalen codi arian.

## Rhannwch eich stori

Os ydy pobl yn gwybod beth sy'n eich ysgogi a sut bydd eich rhodd yn gwneud gwahaniaeth, maen nhw'n fwy tebygol o roi.

**Darllenwch ein hadnodd 'I ble aiff eich arian?' sydd yn y pecyn hwn.**

## Gwnewch i'r gwaith, weithio i chi

Pa un a ydych chi'n gweithio mewn ysgol, ysbyty neu swyddfa, gofynnwch i'ch cydweithwyr eich helpu i godi arian. Bydd stondin gacennau, diwrnod gwisgo lawr a loteri swyddfa yn helpu i'ch rhoi ar ben ffordd.

## Cofiwch ddweud diolch

Cofiwch ddiolch i bawb wnaeth eich helpu. Gallwch rannu lluniau a fideos ar-lein neu roi nodyn yn y post, ond cofiwch ddangos iddynt gymaint rydych chi'n gwerthfawrogi eu help. Gall hefyd fod yn broc bach i atgoffa'r rheini sydd heb roi eto.

# Rhoi ar-lein

**Mae'n syml ac yn hawdd ei drefnu a bydd eich cefnogwyr yn gwerthfawrogi'r ffordd hawdd hon o roi. Dilynwch y camau syml hyn i ddechrau arni.**

**Ewch i justgiving.com neu virginmoneygiving.com**

**1** **Logiwch ymlaen.** Dewiswch 'The Wallich' a dewis eich her o'r rhestr o ddigwyddiadau.

**2** **Gosodwch darged.** Mae tudalennau sydd â thargedau fel arfer yn codi mwy na'r rheini sydd heb darged. Ysbrydolwch eraill i roi a chael cyfraniad cyntaf mawr, neu pam na ddechreuwch chi bethau a rhoi yn gyntaf.

**3** **Diweddarwch eich tudalen.** Mae lluniau a diweddariadau yn dweud wrth y byd pam eich bod yn codi arian. Mae pawb wrth eu bodd yn gweld hun-lun balch, chwyslyd ar ddiwedd y ras.

**4** **Cofiwch rannu.** Rhowch nhw ar Twitter. Ar Facebook. Ar WhatsApp. Rhannwch eich tudalen codi arian â'ch ffrindiau a'ch teulu a gofyn iddynt roi. Gallech ei chynnwys fel linc ar eich llofnod e-bost gwaith, o bosibl.

Gair i gall

## Gofynnwch, gofynnwch, gofynnwch

Peidiwch â bod ofn atgoffa pobl os nad ydynt wedi rhoi eto, mae'n bosibl mai heb fynd ati i wneud eto maen nhw.

## Cymorth Rhodd

Cofiwch ofyn i'r rheini sy'n rhoi dicio'r bocs os ydynt yn Drethdalwyr yn y DU. Gallwn hawlio 25c arall ar bob £1 a roddir – heb gostio dim mwy i chi.


*DS. Ni allwn ond hawlio Cymorth Rhodd ar roddion gan unigolion, ac nid gan gwmnïau na sefydliadau. Ni allwn ychwaith hawlio Cymorth Rhodd ar roddion a wneir yn gyfnewid am nwyddau a gwasanaethau [e.e. tocynnau i ddigwyddiadau, rafflau ac arwerthiannau]*

# Bancio

**Llongyfarchiadau! Rydych chi wedi trefnu, wedi gwneud eich camp ac wedi creu llu o atgofion, heb sôn am yr arian rydych chi wedi'i godi.**

**Yr oll mae angen ichi ei wneud nawr ydy anfon eich nawdd i mewn er mwyn helpu pobl go iawn sy'n wynebu digartrefedd yng Nghymru.**

## Ein gwefan



1. Talwch yr arian i mewn drwy thewallich.com/donate
2. Anfonwch eich ffurflenni noddi i mewn drwy'r post

Rhowch ddisgrifiad o'r digwyddiad codi arian yn y bocs sylwadau ychwanegol.


## Post



Gwnewch siec yn daladwy i 'The Wallich' gydag ein **'Ffurflen Rhodd drwy'r post'** i'r cyfeiriad rhadbost:

**FREEPOST WALLICH**
(Cardiff Hub, 18 Park Place, Cardiff, CF10 3DQ)

## Ffôn



Ffoniwch ni a defnyddio eich cerdyn credyd neu ddebyd ar: **02920 660 468**.

Llinellau ar agor: Llun – Gwener, 8am – 5pm.

## JustGiving

Os ydych chi wedi agor tudalen codi arian ar-lein fel JustGiving, bydd yr arian y bydd pobl yn ei roi yn dod yn uniongyrchol i The Wallich.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os ydych eisiau holi am unrhyw beth, cysylltwch â ni ar: **02029 668 464 / dosomething@thewallich.net**

Diolch ichi am wneud rhywbeth am ddigartrefedd

# Ffyrdd eraill o wneud eich rhan



## Gwirfoddoli

**Gall eich amser a'ch sgiliau helpu ein timau i gyflenwi gwasanaethau rheng flaen hanfodol neu ein helpu i godi mwy o arian.**

Cofrestrwch eich diddordeb drwy gysylltu â'n Swyddog Gwirfoddolwyr ar 029 20 668 464 neu yn **volunteers@thewallich.net**



## Partneriaethau gwaith

**Gweithiwch gyda ni i ddarparu profiad gwaith i'n cleientiaid, i noddi gwasanaeth neu i gymryd rhan mewn heriau neu ddigwyddiadau codi arian. Gallai eich gweithle ymuno â'r gymuned gynyddol o sefydliadau sy'n ymrwymo i helpi i roi diwedd ar ddigartrefedd.**

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'n Rheolwr Codi Arian Corfforaethol ar 029 20 668 464 neu e-bostio **corporate@thewallich.net**



## Rhoi mewn Ewyllys

**Yn fawr neu'n fach, mae pobl sy'n gadael rhodd i elusen yn eu Hewyllys yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.**

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am Roi mewn Ewyllys, gan gynnwys ein Mis Gwneud Ewyllys am Ddim blynyddol, cysylltwch â Mike ar 02920 668464 neu drwy'r e-bost ar **supportercare@thewallich.net**

@TheWallich

@homelessinwales

@TheWallichWales

thewallich.com